# Y Fannod – y, yr, ‘r

- Rydyn ni’n rhoi’r **fannod** o flaen **enw**.
- Mae **tair** ffordd o ddefnyddio’r **fannod** yn Gymraeg: **y** **yr** **‘r**
- Rydyn ni’n defnyddio:

- **y** o flaen cytsain e.e. y **t**eledu, y **c**i, y **b**achgen

- **yr** o flaen llafariad (a e i o u w y (h)) e.e. yr **a**fal, yr **h**aul, yr **w**y, yr ysgol, yr ardd, yr hunllef

- **‘r** ar ôl llafariad e.e. ma**e**’r ferch, dym**a**’r ysgol, en**w**’r rhaglen, meddai’r plant, trwy’r dydd

Dysgwch yr eithriadau: y wal, y wennol